Llawlyfr Cynnwys Ymddiriedolwyr Ifanc

Mae'r llawlyfr yma wedi cael ei greu ar gyfer mudiadau sydd eisiau recriwtio pobl ifanc fel ymddiriedolwyr.

Mae ymchwil yn dangos mai oed cyfartaledd ymddiriedolwyr yn y Ddeyrnas Unedig yw 57.

Mae Cynghorwyr Gwirfoddoli Ieuenctid Gogledd Cymru wedi creu'r llawlyfr yma i annog mudiadau i gynnwys mwy o bobl ifanc.

Ysgol Ymgysylltu

Ble ydych chi ar hyn o bryd?

Matrics Ymgysylltu â Dinasyddion

Ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu nodweddiadol



Math o weithgaredd	Nodweddion	Pŵer y gwasanaeth cyhoeddus/ penderfynwr	Pŵer y dinesydd
Prosiectau cydgynhyrchu, partneriaethau a gytunwyd rhwng pobl mewn awdurdod a dinasyddion, panel dinasyddion ar fyrddau partneriaeth sector cyhoeddus, dogfennau wedi'u hysgrifennu ar y cyd	Cysylltiadau hirdymor rhwng gwasanaethau a'r dinesydd, sawl pwynt cyswllt, partneriaeth yn arwain at ymgysylltiad pellach ar ystod ehangach o faterion, dinasyddion yn cael eu hystyried fel asedau	Pŵer i ddarparu adnoddau, gwneud penderfyniadau gyda'i gilydd, rhannu'r cyfrifoldeb, y gwasanaeth yn caniatáu i'r dinesydd bennu'r agenda Mae gan wasanaethau ddealltwriaeth ddyfnach o ddinasyddion	Pŵer i ddarparu adnoddau, gwneud penderfyniadau gyda'i gilydd, rhannu'r cyfrifoldeb, y dinesydd yn cael pennu'r agenda a'r blaenoriaethau, y gymuned fel y partner arweiniol. Mae gan ddinasyddion wybodaeth am wasanaethau sy'n galluogi ymgysylltiad deallus
Grwpiau tasg a gorffen, pwyllgorau cynllunio, gweithgorau Digwyddiad yn ffurf gweithdy unigol	Pennu'r termau amodau ymgysylltu o gwmpas mater penodol. Treulir amser yn datblygu syniadau gyda'i gilydd. Nid yw gwasanaethau'n 'amddiffyn' y dinesydd rhag materion anodd. Yn cael ei gynnal mewn lleoliad sy'n hygyrch i bawb dan sylw	Gwasanaethau'n caniatáu i ddinasyddion ddylanwadu ar y broses yn ogystal â'r penderfyniad, gwasanaethau'n gwybod y bydd cynnwys dinasyddion yn gwella canlyniadau	Mae gan y dinesydd a'r gwasanaeth bŵer cyfartal o ran y mater dan sylw, dealltwriaeth ddyfnach o'r mater, mae cyfraniad y dinesydd yn cael ei werthfawrogi a gellir ei dracio drwy'r broses ac yn y canlyniadau. Gall dinasyddion adolygu canlyniadau ac ailymweld â datblygiadau
Darparwr gwasanaeth yn mynychu digwyddiad cymunedol Digwyddiad ymgynghori'n cael ei gynnal gan wasanaethau	Sgwrs rhwng y gwasanaeth a'r dinesydd, gwasanaethau'n barod i ateb cwestiynau'n onest ac yn cofnodi'r barnau a fynegir. Dylai ymgynghori da gynnig dulliau creadigol o gael barnau dinasyddion	Gall y gwasanaeth ddewis p'un ai i ymateb i faterion newydd a godir ai peidio. Ar ôl y digwyddiad, mae gan wasanaethau reolaeth lwyr dros beth sy'n digwydd nesaf a'r hyn a wneir efo barnau dinasyddion	Gall dinasyddion godi materion nad oeddynt wedi gofyn amdanynt, gall dinasyddion ofyn cwestiynau, gall dinasyddion gael sgyrsiau dwyffordd efo gwasanaethau ond ni allant sicrhau y bydd gan eu barn unrhyw ddylanwad
Arolygon, ffurflenni adborth, bocs sylwadau, darparwr gwasanaeth yn gofyn am gael trafod mater mewn cyfarfod ffurfiol efo'r gymuned, y gwasanaeth yn defnyddio trydydd parti i gynnal ymgynghoriad	Mae cyfleoedd i drafod materion a pynciau'n cael eu trefnu gan wasanaethau ar adegau sy'n gyfleus i'r gwasanaeth dan sylw. Ni ddarperir unrhyw gyd-destun ehangach, ac yn aml nid oes unrhyw eglurhad o ran beth all ddigwydd nesaf. Ddim modd i'r dinesydd ddylanwadu ar ba mor hygyrch yw'r gweithgaredd	Mae gwasanaeth yn ceisio safbwynt y dinesydd ar fater penodol, gall y gwasanaeth ddewis hwn i wella / newid gwasanaeth, ond gallant hefyd ohirio'r mater. Mae o fewn pŵer y gwasanaeth i ddiweddaru dinasyddion ynghylch beth sy'n digwydd	Gall y dinesydd gynnig ei farn ar fater penodol, yn anodd dilyn y broses y tu hwnt i'r cyfnod adborth, mae gan y dinesydd lai i'w ennill na'r gwasanaeth
Dinasyddion yn cael eu dethol yn ofalus, ddim llawer o wybodaeth am y mater dan sylw, yn cael ei phennu ymlaen llaw gan y gwasanaeth. Gweithgaredd ddim ond ar gyfer rhoi sêl bendith ar rywbeth sydd wedi'i benderfynu'n barod	Cyfnodau amser byr, anodd cael gafael ar wybodaeth, difyg tryloydwer a bod yn agored.Nid oes gan y dinesydd lais mewn sut y meant yn ymgysylltuMae'r gwasanaeth yn penderfynu sut y byddant yn cyfathrebu gyda dinesydd. Y penderfyniad wedi'i wneud yn barod, cysylltiad efo'r gwasanaeth yn ôl amodau sydd wedi'u pennu ymlaen llaw	Pŵer i 'arwain' dinesydd i gyfeiriad penodol. Pŵer i bennu sut y gall pobl gymryd rhan. Pŵer i ddweud pwy sy'n cael cymryd rhan	Pŵer i ymateb neu wrthod. Nid yw'r dinesydd yn ymwybodol o'r broses benderfynu, does gan unigolyn ddim modd o gysylltu yn ôl neu ddilyn pethau wedyn, yn ddibynnol ar ewyllys da'r gwasanaeth

©Copyright Kathy Slinn2015

Yn seiliedig ar gysyniad gwreiddiol Arnstein 'ladder of participation'

Manteision o gynnwys pobl ifanc.

Mae pobl ifanc yn cynrychioli cyfran sylweddol o'r boblogaeth. Yn ogystal â chynnwys pobl ifanc o fewn eich mudiad, gallwch ddenu pobl o gefndir gwahanol a chael cyfuniad gorau o dalentau i gyd-weithio'n effeithiol.

Gall elusennau elwa o arbenigedd ac arweiniad gan ymddiriedolwyr ifanc.

Mae cael bwrdd amrywiol sy'n cynnwys ymddiriedolwyr ifanc yn gallu fod o gymorth gyda chynllunio.

Mae'n gyfle i'ch mudiad gynrychioli'r gymdeithas ehangach.

Mae ymddiriedolwyr ifanc yn awyddus iawn i ddysgu a chael y cyfle i wneud gwahaniaeth.

Manteision o gynnwys pobl ifanc.

Mae Byrddau Rheoli yn elwa o sgiliau amrywiol sy'n golygu fod penderfyniadau gwybodus yn cael eu gwneud.

Gall cael trawstoriad eang o ymddiriedolwyr gynyddu hyder y cyhoedd yn y mudiad a mwy o gefnogaeth i'r mudiad gan y cyhoedd.

Gall elusennau arddangos eu bod yn cydnabod cyfraniad pawb ar lefel uwch.

Sut i recriwtio ymddiredolwr ifanc?

-Gwefan Gwirfoddoli Cymru
- Gwefan Cynghorau Gwirfoddol Sirol
- Sesiynau galw heibio
- Sesiynau recriwtio
-Stondin mewn digwyddiadau
- Sesiwn blasu gwirfoddoli
- Ymweld a gwneud cyflwyniadau mewn ysgolion / colegau / Prifysgolion
-Ar lafar

Mae'r dulliau uchod wedi eu profi'n lwyddiannus yn y broses recriwtio gwirfoddolwyr. Mae llawer o fanteision ar gael hefyd drwy ddefnyddio gwefannau cymdeithasol ar gyfer hysbysebu cyfleoedd a recriwtio unigolion.

Facebook, Twitter ac Instagram
yw'r safleoedd cymdeithasol mwyaf defnyddiol

Cydnabod Gwirfoddolwyr

Sut allwn gydnabod ein gwirfoddolwyr?

-Cynllun Gwirfoddoli y Mileniwm

-Cynllun 'Star Awards' (Wrecsam)

-Cynllun Gwirfoddoli Gwynedd

-Wythnos Genedlaethol Gwirfoddolwyr

-Digwyddiadau Dathlu

Cysylltwch gyda'ch
Canolfan Gwirfoddoli lleol
am ragor o wybodaeth

Goresgyn y Rhwystrau

LLEOLIAD CYFARFODYDD

Mae'n anodd i bobl ifanc fynychu cyfarfodydd a phwyllgorau. Bellach, fe all mudiadau ddefnyddio Skype er mwyn cynnwys aelodau mewn trafodaethau. Opsiwn arall yw trefnu trafnidiaeth i'r bobl ifanc. Gall fudiadau hefyd dalu costau teithio er mwyn cefnogi ac annog pobl ifanc i fynychu cyfarfodydd.

CYFRANOGI

Os yw mudiadau yn chwilio am ymddiriedolwyr ifanc i ymuno ar y Bwrdd Rheoli neu bwyllgor, gall ffurfioldeb ac iaith a ddefynddir yn y cyfarfodydd fod yn rwystr i berson ifanc. Mae un mudiad o Gogledd Cymru yn trefnu rhaglen eu cyfarfodydd gyda eitemau sy'n ysgogi cyfarnogiad pobl ifanc. Mae hwn yn ddull o sicrhau mewn bwn gan yr union bobl y maent yn eu gwasanaethu. Gofynnir hefyd i'r ymddiriedolwyr ifanc beth hoffent ei gynnwys ar y rhaglen ymhen cyfarfodydd.

Goresgyn y Rhwystrau

PROFIAD

Mae pobl ifanc yn dod â ystod eang o brofiadau a syniadau unigryw i gyfarfodydd Byrddau Rheoli / pwyllgorau. Mae pobl ifanc hefyd yn medru cyfrannu i drafodaethau o safbwyntiau gwahanol. Mae hyn mewn tro yn cynyddu hyder yr aelodau ifanc trwy ddangod eich bod yn ymddiried ac yn parchu eu barn.

Hwyrach nad oes gan y person ifanc brofiad o fod yn rhan o gyfarfodydd a lleisio eu barn. Fodd bynnag, gall eu gwybodaeth fod yn ddefnyddiol iawn i chi fel mudiad yn enwedig os ydych yn darparu gwasanaeth i bobl ifanc.

AMSER CYFARFODYDD

Gall amser cyfarfodydd fod yn rwystr mawr i fudiadau recriwtio ymddiriedolwyr ifanc. Mae mudiadau sydd eisioes gyda ymddiriedolwyr ifanc wedi darganfod fod adnoddau megis Skype yn ddefnyddiol iawn er mwyn cynnwys pobl ifanc mewn cyfarfodydd a thrafodaethau. Os yw ymddiriedolwr ifanc yn rhan fawr o'r Bwrdd Rheoli neu bwyllgor, mae cynnal cyfarfodydd hwyrach yn y dydd neu yn ystod y penwythnosau yn llawer mwy cyfleus i bobl ifanc.

Dulliau i gynnwys pobl ifanc

Mae ein ymchwil yn dangos nad yw pobl ifanc yn gallu bod yn ymddiriedolwyr llawn amser am nifer o resymau.
Dyma ambell i syniadau o sut i gynnwys pobl ifanc fel rhan o'ch mudiad:

1. Mentor y Bwrdd Rheoli

Yn gyntaf, gallwch ofyn i aelod profiadol o'r Bwrdd fentora'r person ifanc. Y mentor fydd yn rhoi cyngor cyffredinol yn ogystal â sicrhau y gall y person ifanc leisio'i barn yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd

2. Aelod Cysylltiol o'r Bwrdd Rheoli

Gall cynnwys pobl ifanc ar Fyrddau Rheoli fod yn hawsach fel Aelodau Cysylltiol. Gall y person ifanc fod yn rhan o'r Bwrdd os ydynt yn llai na 18 oed yn ogystal ag ymrwymo am gyfnod byrrach. Mi all y person ifanc gyfrannu i drafodaethau ond nid yn cael pleidleisio.

3. Is-bwyllgor

Mae pobl ifanc yn tueddol o wirfoddoli i fudiadau sydd yn gweithio gyda phobl ifanc. Gall fudiadau sefydlu is-bwyllgorau pobl ifanc fel mecanwaith i gyd-drafod, gwneud penderfyniadau, ymgynghori ac hyn yn oed penodi cynrychiolydd ar gyfer y Bwrdd Rheoli er mwyn rhannu materion pwysig.

4. Anffurfiol

Gall fudaidau ofyn i weithwyr neu wirfoddolwyr gasglu gwybodaeth a barn pobl ifanc er mwyn bwydo yn ôl i'r Bwrdd Rheoli

Polisiau a Phobl Ifanc

Nid yw edrych ar bolisiau yn apelio i bawb. Mae hyn yn wir am bobl ifanc. Mae polisiau yn medru bod yn hir wyntog ac yn ddogfennau diflas iawn. Rydym wedi cynnwys yr adran yma er mwyn eich helpu ar sut i wneud cyfarfodydd yn fwy diddorol pan fyddwch yn trafod polisiau. Dyma ambell i awgrymiadau:

- Gallwch dorri'r polisiau i ddarnau neu baragraffau. Gallwch rannu aelodau i grwpiau trafod ac yna cael pawb i fwydo yn ôl i weddill y cyfarfod.

-Gallwch ofyn i ymddiriedolwyr edrych ar bolisiau sydd o diddordeb iddynt e.e. gwefannau cymdeithasol, marchnata, diogelu plant....

- Creu gemau gyda'r polisiau i ddod yn gyfarwydd gyda nhw. Gallwch rannu aelodau i grwpiau a chreu cwestiynau (rhai hawdd neu anodd) i'r grwpiau eraill eu hateb.

-Gallwch grynhoi'r polisiau i ymddiriedolwyr newydd. Nid oes angen eu boddi â gwybodaeth yn y cyfarfod cyntaf.

Am ragor o wybodaeth am bolisiau, ewch i wefan eich Cyngor Gwirfoddol Sirol (manylion ar y dudalen olaf)

Beth mae pobl ifanc yn ddweud?

"Nid oeddwn yn gwybod ei fod yn opsiwn- doedd neb wedi gofyn i mi fod yn ymddiriedolwraig."

"Roeddwn yn gyfrifol am gyfryngau cymdeithasol fel ymddiredolwr. Dwi'n teimlo fod y mudiad wedi elwa o hynny"

" Dwi ddim yn meddwl fod pobl yn gwrando arnaf nac yn fy nghymryd o ddifri."

"Anodd i mi gael amser- mae cyfarfodydd gyda'r nos yn well i mi"

Astudiaeth Achos

Elain (21)

Mae Elain yn gwirfoddoli ar sawl panel mewn mudiad pobl ifanc yn sir Ddinbych. Mae hi'n teimlo ei bod hi'n bwysig gwirfoddoli ar baneli i sicrhau fod ei llais yn cael ei glywed. Serch hynny, teimlai ar adegau fod llais pobl ifanc yn cael ei anwybyddu hyd yn oed mewn mudiad pobl ifanc.

Mae gwirfoddoli ar bwyllgorau wedi gwella ei hyder yn aruthrol ac wedi rhoi sgiliau sydd yn ei helpu gyda'i gwaith. Elain, ar adegau, yw'r unig berson ifanc sydd ar y pwyllgor a gall y cyfarfodydd fod yn ddiflas. Yn ogystal, mae Elain yn teithio'n bell i'r cyfarfodydd ac mae hyn ar ôl diwrnod o waith yn anodd. Mae Elain yn parhau i wirfoddoli fel ymddiriedolwraig gan ei bod yn teimlo'n angerddol am waith y mudiad.

Astudiaeth Achos

CellB

Mae Cellb yn leoliad celf creadigol aml-swyddogaethol ym Mlaenau Ffestiniog. Mae ganddnyt gaffi, hostel, sinema a chynhelir sawl digwyddiad i bobl ifanc yr ardal yma.

Mae gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr is-bwyllgor pobl ifanc sydd yn helpu gyda gwaith y mudiad. Dywedai Rhys fod gan yr is-bwyllgor lais cryf iawn ymhob mater. Mae'r bobl ifanc yn teimlo fod cyfarfodydd y Bwrdd yn gallu bod yn ddiflas. Trwy gael is-bwyllgor, mae'r broses cyfranogi yn llawer mwy diddorol ac hygyrch i'r bobl ifanc.

Mae'r is-bwyllgor yn helpu'r bobl ifanc i fedru magu hyder drwy gymdeithasu gyda'i gilydd. Mae holl syniadau CellB yn cael eu gwneud gan y bobl ifanc. Hebddynt, ni fyddai'r mudiad yn bodoli. Mae gan y defnyddwyr gwasanaeth berchnogaeth dros y mudiad a'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud.

Astudiaeth Achos

TAPE

(ELUSEN CYMUNDEOL CELFYDDYDOL YW TAPE SYDD YN CYNNIG CYFLEOEDD CREADIGOL I BAWB)

Mae gan TAPE berson ifanc sydd yn aelod cyfetholedig ar eu pwyllgorau. Bydd yn aelod llawn ar ôl gorffen ei astudiaethau yn y brifysgol.

Mae'n mynychu cyfarfodydd ac yn cynrychioli diddordebau pobl ifanc. Cafodd ei recriwtio am ei fod yn aelod o glwb pobl ifanc yn TAPE am 5 mlynedd cyn iddo ddechrau gwirfoddoli yno'n wythnosol.

Gofynwyd iddo ymuno â'r pwyllgor gan weld yr adnodd o'i gael fel aelod. Ceisiai TAPE fod mor gynhwysol â sy'n bosibl- mae eu cyfarfodydd ar gael drwy 'audio'. Mae cynnwys pobl ifanc yn wreiddiol i waith y mudiad ac mae trafodaeth agored ar gael o hyd. Mae dealltwriaeth y gall bobl ifanc fod yn ymddiriedolwyr yn hynod o bwysig iddynt. Yn aml, nid yw mudiadau yn credu fod gan bobl ifanc ddigon o wybodaeth a'r gallu i fynychu Pwyllgorau. Drwy gynnwys person ifanc ar y Pwyllgor, creda TAPE eu bod yn denu mwy o bobl ifanc i'r mudiad.

Astudiaeth Achos

Snowdonia Donkeys

Mae Snowdonia Donkeys yn hyrwyddo iechyd a lles drwy weithio gyda mulod yn y gymuned leol yng Ngogledd Cymru. Mae ganddynt dri aelod pwyllgor sydd yn iau na 25 oed. Mae'r mudiad yn recriwtio aelodau newydd drwy eu grwpiau gwirfoddol. Mae cael ymddiriedolwyr ifanc yn amhrisiadwy ac wedi eu cynorthwyo gyda gwefannau cymdeithasol yn ogystal â hyfforddi ymddiriedolwyr eraill ar sut i ddefnyddio meddalwedd fel 'Drop Box'. Mae gwahaniaethu rolau ymddiriedolwyr wedi eu helpu i recriwtio'n well yn ogystal â chynnig cyfnod byrrach fel ymddiriedolwyr (3 mis). Cynhelir cyfarfodydd mewn lleoliadau anffurfiol fel y gall bobl ifanc deimlo'n gyfforddus. Hefyd, maent yn ceisio bod mor hyblyg â sydd phosibl. Maent yn teimlo ei fod yn bwysig i wirfoddolwyr gael perchnogaeth dros waith y mudiad a sicrhau fod llais pobl ifanc yn cael ei glywed.

Manylion cysylltu

Ynys Môn
www.medrwnmon.org
01248 724944

Gwynedd
www.mantellgwynedd.com
01286 672626

Conwy
www.cvsc.org.uk
01492 534091

Sir Ddinbych:
www.dvsc.co.uk
01824 702441

Sir Y Fflint:
www.flvc.org.uk
01352 744000

Wrecsam:
www.avow.org
01978 312556

Llawlyfr Gwybodaeth Ymddiriedolwr Ifanc

https://www.cafonline.org/docs/default-source/about-us-publications/youngtrusteesreport_1682a_web_080915.pdf?sfvrsn=8

Ymddiredolwyr Ifanc Cymru
jannines@childrensrightsunit.org.uk
Twitter @ytrusteescymru.

Cafodd y llawlyfr hwn ei greu ar y cyd gan Chanolfannau Gwirfoddoli Gogledd Cymru